# Prifysgol Aberystwyth – Disgrifiad o Broffil Rôl

Teitl: Clerigol ac Ysgrifenyddol 4

**CYFATHREBU**

### (a) Cyfathrebu Llafar

Deall a chyfathrebu gwybodaeth a all fod yn syml neu y gall fod angen ei hesbonio neu ei dehongli er mwyn cynorthwyo pobl eraill i'w deall, a bydd angen rhoi ystyriaeth i beth i'w gyfathrebu a sut.

Er enghraifft:

- Darparu gwybodaeth am wasanaethau, prosesau a gweithdrefnau i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr
- Egluro gweithdrefnau i'r rheini nad ydynt o bosibl yn gyfarwydd â'r Brifysgol e.e. trefniadau ymgeisio am fenthyciad myfyriwr i fyfyrwyr newydd, talu ffioedd, cyflwyno gwaith, ceisiadau fisa
- Cynnal cyfarfodydd â'r rhai sy'n darparu gwasanaeth neu ddarpar ddefnyddwyr er mwyn deall y gofynion ac egluro'r buddiannau

### (b) Cyfathrebu Ysgrifenedig

Deall a chyfathrebu gwybodaeth a all fod yn syml neu y gallai fod angen esboniad neu ddehongliad er mwyn helpu i eraill ei deall, a bydd angen rhoi ystyriaeth i beth i'w gyfathrebu a sut..

Er enghraifft:

- Cynnal gohebiaeth ebost gyda staff, myfyrwyr ac eraill yn cyfleu gwybodaeth sylfaenol am weithdrefnau neu fonitro cynnydd y gwaith
- Drafftio llythyrau, negeseuon ebost contractau neu femos i staff, myfyrwyr neu gyrff allanol gan ddefnyddio templedi gydag addasiadau lle bo'n briodol
- Paratoi deunydd ysgrifenedig i'w gyhoeddi e.e. llythyrau neu gylchlythyrau defnyddwyr, gwybodaeth marchnata fel taflenni neu lyfrynnau hysbysebu, egluro gweithdrefnau

## GWAITH TÎM A CHYMHELLIANT

Gweithio fel aelod gweithredol o dîm drwy ddarparu cymorth i aelodau eraill o'r tîm, drwy ddangos agwedd hyblyg a helpu i adeiladu ysbryd y tîm.

Er enghraifft:

- Chwarae rhan weithredol yng nghyfarfodydd y tîm, gan gyfrannu at drafodaethau a chefnogi aelodau eraill o'r tîm
- Cyflenwi ar ran cydweithwyr absennol
- Gweithio'n gydweithredol gyda chydweithwyr, gan gyfleu cynnydd a chanlyniadau
- Ceisio datrys problemau drwy gydweithio gydag aelodau eraill o'r tîm a thynnu ar sgiliau a phrofiad eich gilydd

## CYSWLLT A RHWYDWEITHIO

Cysylltu gyda staff y tu allan i'r tîm gwaith gan ddefnyddio prosesau sy'n bodoli er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn effeithiol ac i adeiladu perthynas i hwyluso gwaith yn y dyfodol

Er enghraifft:

- Creu cysylltiadau ag aelodau o dimau neu adrannau eraill i sicrhau lefel dda o wasanaeth a chydweithio e.e. gwasanaethau archebu ystafelloedd a lletygarwch, cyllid, AD, gwasanaethau argraffu, eraill sy'n ymgymryd â rolau tebyg mewn adrannau eraill
- Creu cysylltiadau â sefydliadau allanol e.e. cyflenwyr, lleoliadau cynadleddau, cyflogwyr, ffermydd, asiantaethau'r llywodraeth, banciau, timau neu fforymau cymorth technegol

## CYFLENWI GWASANAETH

Ymateb yn brydlon ac yn gywir i'r rheini sy'n gofyn am wybodaeth neu wasanaeth. Bydd hyn fel arfer yn golygu tasgau rheolaidd o fewn gweithdrefn ddiffiniedig neu safon osodedig. Cyfeirio'r cais ymlaen at yr unigolyn priodol os oes angen.

Yn aml ymchwilio i ofynion y cwsmer ymhellach ac addasu'r gwasanaeth a gyflenwir i sicrhau bod y gofynion hynny'n cael eu bodloni. Hefyd gall gysylltu â chysylltiadau mewnol neu allanol i ddarparu gwasanaeth sy'n dod dan bolisïau a gweithdrefnau cyfredol.

Er enghraifft:

- Darparu gwasanaeth hyblyg ac effeithiol i gwsmeriaid. Gall hyn olygu bod angen darparu'r wybodaeth neu'r cyngor priodol, ymgymryd â thasg benodol, cyflenwi'r cyfarpar cywir
- Yn aml addasu'r gwasanaeth a gyflenwir i ddiwallu anghenion y cwsmer o fewn canllawiau a phan fydd hyn er budd y Brifysgol e.e. addasu'r pecyn cynhadledd safonol ar gyfer archeb benodol, ymateb i adborth a diwygio'r adroddiadau a ddarperir gan ddarn penodol o feddalwedd

## PROSESAU PENDERFYNU

Gwneud penderfyniadau sydd ag effaith tymor byr a lleol.

Cydweithio gydag eraill i wneud penderfyniadau sydd ag effaith tymor byr a chanolig ar y tîm gwaith neu ar nifer o gwsmeriaid.

Cynnig cyngor i bobl eraill i'w galluogi i wneud penderfyniadau sydd ag effaith tymor byr i ganolig ar waith y tîm neu ar nifer o gwsmeriaid.

Er enghraifft:

- Gwneud penderfyniadau annibynnol o fewn polisïau a gweithdrefnau priodol ar sut i ymateb i geisiadau am wybodaeth neu arweiniad, pryd i archebu mwy o stoc neu ddeunydd swyddfa, ar godio gwybodaeth wrth ddefnyddio systemau cyfrifiadurol, gan wirio a newid lle bo angen ac ar gatalogio llyfrau neu gyhoeddiadau eraill yn briodol
- Gwneud penderfyniadau gyda phobl eraill i benderfynu ar newidiadau i systemau, gweithrediadau neu weithdrefnau e.e. cyflwyno systemau cyfrifiadurol, gweinyddu cyrsiau
- Darparu cyngor i reolwyr ar weithrediad y gwasanaethau a sut y gellid eu newid yng ngoleuni adborth gan gwsmeriaid neu rwyddineb eu defnydd a'u heffeithiolrwydd

## CYNLLUNIO A THREFNU ADNODDAU

Trefnu eich gwaith ac adnoddau eich hun i fodloni amcanion a gytunwyd.

Er enghraifft:

- Deall blaenoriaethau pob rhan o'r rôl a chynllunio eich gwaith eich hun gydag ystyriaeth i unrhyw derfynau amser y gellid eu gosod i bob tasg neu rai ohonynt
- Sicrhau bod digon o adnoddau i gwblhau tasgau ar amser
- Ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl neu newidiadau mewn blaenoriaethau'n gadarnhaol ac aildrefnu gwaith fel bo angen

## MENTER A DATRYS PROBLEMAU

Datrys problemau dydd i ddydd wrth iddynt godi gan ddefnyddio'r canllawiau sydd ar gael a chyfeirio ymlaen at bobl eraill pan fo angen.

Yn aml datrys problemau pan nad yw'r datrysiad yn amlwg drwy ddefnyddio menter a rhesymu.

Er enghraifft:

- Datrys problemau neu ymholiadau a wneir o fewn canllawiau os yw'n bosibl, a chyfeirio'r broblem at bobl eraill os nad yw
- Yn aml ymdrin ag ymholiadau gan fyfyrwyr, staff neu asiantaethau allanol pan fo'r materion a godir yn annisgwyl neu'n unigryw, canfod datrysiad priodol lle bo'n bosibl, neu gyfeirio at bobl eraill

## DADANSODDI AC YMCHWIL

Dadansoddi data rheolaidd neu wybodaeth o ffynonellau safonol gan ddefnyddio gweithdrefnau sy'n bodoli

Er enghraifft:

- Defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio am wybodaeth, casglu a threfnu'r data ac adrodd
- Casglu a chofnodi data ar system i'w ddadansoddi neu greu adroddiad, ymchwilio ac adrodd am anghysondebau neu wallau
- Monitro a dadansoddi gwariant yn erbyn cyllideb o fewn maes cyfrifoldeb

## GOFYNION SYNHWYRAIDD A CHORFFOROL

Cyflawni tasgau sylfaenol nad oes angen llawer o gyfarwyddwyd ac sy'n cynnwys ymdrech corfforol ysgafn, os o gwbl

## AMGYLCHEDD GWAITH

Gweithio mewn amgylchedd cymharol sefydlog nad yw'n effeithio llawer ar y ffordd y caiff y gwaith ei wneud.

## GOFAL BUGEILIOL A LLES

Ymateb yn sensitif i unrhyw rai sydd angen cymorth neu sy'n dangos arwyddion o drallod a chynnwys pobl sydd wedi'u hyfforddi'n berthnasol lle bo'n briodol.

Er enghraifft:

- Ymdrin yn bwyllog ac yn sensitif â staff neu fyfyrwyr wrth ddod ar eu traws yn y gwaith, cyfeirio defnyddwyr at gymorth priodol lle bo angen

## DATBLYGU TÎM

Ar adegau darparu cyngor neu arweiniad i gydweithwyr newydd yn y rôl neu'r tîm ar weithdrefnau a gwybodaeth safonol.

Ar adegau hyfforddi neu arwain pobl eraill ar dasgau, materion neu weithgareddau penodol ar sail eich gwybodaeth a'ch profiad eich hun.

Er enghraifft:

- Ar adegau cyfrannu at hyfforddiant sefydlu aelodau newydd o'r tîm drwy ddangos yr adran iddyn nhw a'u cyflwyno i'r gwaith sydd ganddyn nhw i'w wneud
- Ar adegau cyflwyno neu drefnu hyfforddiant perthnasol i aelodau o'r tîm i'w galluogi i berfformio eu gwaith fel bo'r angen a/neu ddarparu arweiniad i staff yn y tîm ar weithrediad cyfarpar a gweithdrefnau fel bo'r angen

## CYMORTH ADDYSGU A DYSGU

Cyflwyno deunyddiau addysgu neu hyfforddi er mwyn cyflwyno myfyrwyr neu eraill i wybodaeth neu weithdrefnau safonol

Er enghraifft:

- Dangos i ddefnyddwyr sut mae'r gwasanaeth yn gweithio
- Esbonio defnydd o gyfarpar a gweithdrefnau newydd i staff

## GWYBODAETH A PHROFIAD

Meddu ar wybodaeth gadarn o'r ddamcaniaeth a'r ymarfer sy'n effeithio ar y rôl a dangos datblygiad parhaus o ran sgiliau a galluoedd.

Er enghraifft:

- Deall, gallu defnyddio a cheisio datblygu prosesau neu weithdrefnau sy'n berthnasol i'r rôl
- Dealltwriaeth eang o waith yr adran gyfan a sut mae'r rôl yn rhan o hyn
- Ceisio datblygu gwybodaeth a defnyddio'r hyn a ddysgir wrth gyflawni'r rôl
- Deall a gallu defnyddio'r ddamcaniaeth sy'n gysylltiedig â chyflawni'r rôl